Welsh Gymnastics
Gymnasteg Cymru

# LLE MAE CHWARAEON YN DECHRAU

## Uchelgais Strategol Gymnasteg Cymru

2025-2035



sportwales chwaraeoncymru

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Welsh Gymnastics
Gymnasteg Cymru



# Gymnasteg yw lle mae chwaraeon yn dechrau...

# Croeso i'n Strategaeth newydd.....

Mae manteision gymnasteg yn ddiguro ac mae'n gamp sy'n cynnwys pawb.  Hyblygrwydd, ystwythder, cryfder, cydbwysedd a chydsymudiad yw'r sgiliau craidd sy'n darparu sylfeini cadarn ar gyfer mwynhad gydol oes o unrhyw chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae ein strategaeth yn nodi cyfnod newydd i gymnasteg yng Nghymru ac i Gymnasteg Cymru, sef corff rheoli'r gamp yng Nghymru, sy'n cael ei gydnabod gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru.  Nawr mae gennym ni gyfle i adeiladu ar ein llwyddiannau.

Rydym yn parhau i ymateb i'r heriau sydd wedi codi ar lefel y DU ac rydym wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn teimlo'n ddiogel. Bydd yr elfennau allweddol sydd wedi sbarduno llwyddiant yn ein camp erioed yn sail i'r strategaeth hon, a byddant yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol mwy disglair fyth: Pobl a Lleoedd, gydag Arferion (gorau) yn sail i'r cyfan.

Bydd gweithio ar draws ein tri bloc adeiladu strategol yn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol, gan ein helpu i gefnogi ein haelodau a gyrru ein camp yn ei blaen. Does dim modd cyflawni ein huchelgeisiau, sydd wedi'u nodi yn y strategaeth hon, dros nos. Dyma pam ei bod wedi cael ei gosod dros gyfnod o 10 mlynedd.

“Mae **manteision** gymnasteg **yn** hollgynhwysfawr



# Mae gennym ni Ddau Bwrpas...

1 Rydym yn llywodreathu gymnasteg mewn ffordd ddiogel, deg a chyfiawn.

2 Rydym yn arwain y gamp gan alluogi gymnasteg i ffynnu!

Fel y corff rheoli cydnabyddedig ar gyfer disgyblaethau gymnasteg yng Nghymru, mae ein cylch gwaith yn cynnwys:

Artistig, (Menywod a Dynion), Trampolinio, Rhythmig, Acrobatig, Twmblo, Gymnasteg Tim, Trampolinio Mini Dwbl(DMT), Aerobig, Gymnasteg i Bawb

Mae gennym ni

# Weledigaeth...



Am y tro cyntaf erioed, mae'r cyrff rheoli cenedlaethol ar gyfer gymnasteg ledled y DU wedi dod at ei gilydd i greu gweledigaeth ar y cyd:

**'LEAP without limits'**, i ddarparu profiad gymnasteg dyrchafol i bawb, er mwyn sicrhau bod gymnasteg yn ddiogel, yn bleserus ac yn agored i bawb..

British Gymnastics
Scottish Gymnastics
Welsh Gymnastics Gymnasteg Cymru
ENGLISH GYMNASTICS
GYMNASTICS NORTHERN IRELAND

Ac mae gennym ni

# Genhadaeth...

Sicrhau ein bod yn meithrin pobl drwy gydol eu siwrnai gymnasteg, mewn lleoedd addas i'r diben; a'r cyfan wedi'i seilio ar safonau (gorau), gan sicrhau bod gweithgareddau gymnasteg â sicrwydd ansawdd yn cael eu cyflwyno mewn amgylcheddau diogel, cadarnhaol, hwyliog a chynhwysol.




**Pobl, Lleoedd,Safonau**
dyma ein blociau adeiladu strategol i sicrhau llwyddiant. .

**Ac yn fwy na dim... mae diogelu a lles ein gymnastwyr ni wrth ♡ popeth rydym yn ei wneud.**



"Rydym yn meithrin **pobl** drwy gydol eu siwrnai gymnasteg mewn **lleoedd** addas i'r diben; a'r cyfan wedi'i seilio ar **safonau gorau.**

# Mae ein Gwerthoedd yn bwysig i ni

Rydym wedi ymrwymo i'n gwerthoedd. Datblygwyd y rhain mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid - yn benodol, ein gymnastwyr. Bydd ein gwerthoedd yn dylanwadu ar ein hymddygiad a'n diwylliant, gan sicrhau bod pob un ohonom yn gallu chwarae ein rhan wrth ddarparu **profiad gymnasteg hapus i bawb.**



## Llawn Dyhead

Rydym yn uchelgeisiol ac yn ysbrydoli ein gilydd i wneud ein gorau glas.



## Gofalgar

Rydym yn gymuned sy'n ddiogel, yn hwyliog ac yn gynhwysol; rydym yn defnyddio ein llais ac yn cael ein grymuso i wireddu ein grymuso potensial llawn.



## Atebol

Rydym yn onest a bob amser yn gwella, gan roi ein cymuned wrth galon ein penderfyniadau.





Bydd ein gwerthoedd yn dylanwadu ar ein hymddygiad a'n diwylliant

Mae gymnasteg yng Nghymru

# mewn lle da.







Dyma gipolwg....

# Ein Pobl

**1,000**
o Hyfforddwyr

**180 000**
o blant yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gymnasteg yn rheolaidd [1]

**25 000**
o aelodau cofrestredig

Gymnastwyr ar bob cam o'r Llwybr Perfformiad Prydeinig

Cyfrannu at y tîm Olympaidd

Cyfrannu at gasgliad medalau Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad


**1,500**
o swyddi wedi eu creu drwy ein clybiau

**12 000**
o blant ar restrau aros ar gyfer clwb

**Camp #1**
o ran cefnogi menywod entrepreneuraidd yng Nghymru

[1] Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 | Chwaraeon Cymru

# Ein Lleoedd




## 85%

o Ysgolion Anghenion Addysgol Arbenning (AAA) yn cyflwyno gweithgareddau Gymnasteg cynhwysol



## 142

o safleoedd



## 59%

o glybiau mewn cyfleusterau pwrpasol

# Ein Safonau

**£54m**

o elw cymdeithasol ar fuddsoddiad bob blwyddyn[2, 3]

**90%**

o glybiau'n gweithredu fel busnesau cymdeithasol

wsa
Welsh Sports Association
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

The Equality Standard
A Framework for Sport

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU
DISABILITY SPORT WALES

wedi sicrhau safon aur, gan gydnabod ein hymrwymiad i gynhwysiantt

Child Protection in Sport Unit

wedi cael lefel 3 mewn diogelu gan Uned Amddiffyn Plantt mewn Chwaraeon yng Nghymru/Chwaraeon Cymru

[2] SElw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad mewn Chwaraeon yng Nghymru | Chwaraeon Cymru

3 Trosiant ar y cyd rhwng Gymnasteg Cymru a chlybiau gymnasteg cofrestredig £12.2m. Mae'r ffigur yn debygol o fod yn uwch wrth ystyried gweithgarwch arall mewn cyfleusterau hamdden a gweithgarwch nad yw'n gofrestredigy



# 180,000

o blant yn cymryd rhan
mewn gymnasteg
**yn rheolaidd**

Ffynhonnell - Arolwg Chwaraeon Ysgol
Chwaraeon Cymru 2022

# Byddwn yn parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i bobl Cymru::

Rydym yn cysoni popeth rydym yn ei wneud yn erbyn saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn sicrhau bod Gymnasteg Cymru a gymnasteg yng Nghymru yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth wneud hynny, mae Gymnasteg Cymru a'i glybiau sy'n aelodau yn cynhyrchu £54M o elw cymdeithasol ar fuddsoddiad bob blwyddyn.



[4] Dilynwch y ddolen yma i weld dadansoddiad llawn o'r cyfraniad y mae Gymnasteg Cymru yn ei wneud at Nodau'r Ddeddf https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/

[5] Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn chwaraeon, mae £4.44 o elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn cael ei sicrhau mewn Chwaraeon yng Nghymru | Chwaraeon Cymru

# Chwarae ein rhan ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

4

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol :**

Cymru Lewyrchus,
Cymru Gydnerthth,
Cymru llachach
Cymru Sy'n Fwy Cyfartal,
Cymru o Gymunedau Cydlynus gyda Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu,
Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Polisiau ac Amcanion Strategol Llywodraethau Cymru: Blynyddoedd Cynnar,, Tlodi Plant,, Ffyniant i Bawb,wb, Gwneud Bywyd yn well i blantt yng Nghymru, Cefnogi Menywod Entrepreneuraidd yng Nghymru, Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol, Targedau Sero Net

2

sportwales
chwaraeoncymru

Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru
**"cyfle i bawb fwynhau chwaraeon am oes.""**

Chwaraeon Cymru
"galluogi **chwaraeon** yng **Nghymru** i ffynnu"

1

Welsh Gymnastics
Gymnasteg Cymru

**Lle Mae Chwaraeon Yn Dechrau**

**"Gymnasteg yw'r gamp sylfaen"**

Ni yw... gamp

**sylfaen**

Dyma lle mae

chwaraeon yn dechrau



# Mae ein Nodau

## yn rhai pellgyrhaeddol

**Blaenoriaethu diogelwch a lles**

**Gwella Cydnerthedd Ariannol**

**Datblygu cyfleusterau addas ar gyfer y dyfodol**

**Creu cyfleoedd i Bawb**

**Gweithredu llwybrau clir ar gyfer cynnydd i berfformiad**

# NOD 1

## Blaenoriaethu diogelwch a lles

Heb os, diogelu a sicrhau lles ein gymnastwyr fydd ein prif flaenoriaeth bob amser. Diogelu yw'r edau aur sy'n cysylltu pob agwedd ar ein gwaith, ac sy'n berthnasol i bob nod. Mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, bydd diwylliant sy'n sicrhau bod llais pawb yn ein cymuned yn cael ei glywed, yn parhau i esblygu. Rydym i gyd yn deall ein cyfrifoldebau ac yn atebol am ein gweithredoedd.

# Byddwn yn sicrhau'r canlynol ...

## Pobl

Ein bod yn creu diwylliant lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. .

Ein bod i gyd yn deall ein rôl o ran sicrhau bod ein camp yn ddiogel ac yn gynhwysol.

Ein bod yn sicrhau mai ein Bwrdd Cyfarwyddwyr yw gwarcheidwaid y mesurau diogelu a lles.

Ein bod yn gwrando ar leisiau ein gymnastwyr ac yn datblygu ein cymuned o Lysgenhadon Gymnasteg.

Ein bod yn parhau i gyflogi gweithwyr proffesiynol profiadol ym maes diogelu.

## Lleoedd

Bod ein holl leoedd yn amgylcheddau diogel, cynhwysol a hygyrch.

Ein bod yn creu mynediad agored i'n lleoedd, yn creu mannau gwylio neu'n cynnig ffrydio digidol byw i rieni.

## Safonau

Ein bod yn ymdrechu i wella'n barhaus yn erbyn ein cynllun diogelu a lles, gan gyhoeddi ein cynnydd bob blwyddyn.

Ein bod yn gwarchod y gyllideb ddiogelu rhag y risg o fesurau torri costau.

Ein bod yn parhau i weithio gyda chyrff rheoleiddio i herio chwaraeon heb eu rheoleiddio, gan osod y safonau sylfaenol y cytunwyd arnynt.

Ein bod yn cynnal Safon Diogelu Lefel 3, a ddyfarnwyd gan Uned. Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC.

Ein bod yn cynnal cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Ein bod yn cynnal polisïau clir a thryloyw sy'n addas i gymnastwyr.endly policies.


Heb os, diogelwch a lles ein gymnastwyr fydd ein prif flaenoriaeth bob amser.
“

# Nod 2

## Gwella Cydnerthedd Ariannol

Bydd sicrhau cydnerthedd ariannol i Gymnasteg Cymru a'r gymuned gymnasteg ehangach yn gwneud ein camp yn fwy cynaliadwy. Mae'n gofyn am gynllunio strategol a mynd ar drywydd cyfleoedd masnachol creadigol.

# Byddwn yn sicrhau'r canlynol ...

## Pobl

Ein bod yn gweithio gyda darparwyr gymnasteg i nodi cyfleoedd ariannol sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Ein bod yn meithrin perthynas waith agosach gydag asiantaethau'r llywodraeth i gefnogi twf.

Ein bod yn sicrhau bod ein cynnig aelodaeth yn sicrhau gwerth i'r holl aelodau.

## Lleoedd

Gwella'r amrywiaeth o gystadlaethau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau ledled Cymru.

Gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio gymnasteg fel rhan o'r estyniad i'r diwrnod ysgol.

Cryfhau partneriaethau gyda chyfleusterau i helpu i ateb y galw heb ei ddiwallu am gymnasteg.

## Safonau

Cynnal hyder buddsoddwyr cyllid cyhoeddus drwy gynnal lefel uchel o ddulliau llywodraethu.

Taro cydbwysedd rhwng uchelgais ariannol a risg ar lefel bwrdd.

Datblygu cynllun eiriolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r achos dros fuddsoddi ariannol ymhlith rhanddeiliaid.

Croesawu technoleg i leihau costau a chynyddu cyfleoedd masnachol.

Nodi arbedion maint i rannu gwasanaethau ar draws y sector chwaraeon.



“

Bydd cydnerthedd ariannol i Gymnasteg Cymru a'r gymuned gymnasteg ehangach yn gwneud ein camp yn fwy cynaliadwy

# NOD 3

## Datblygu cyfleusterau addas ar gyfer y dyfodol

Mae gymnasteg yng Nghymru wedi cael ei drawsnewid, yn sgil cyflwyno cyfleusterau pwrpasol, dan arweiniad entrepreneuriaid cymdeithasol medrus, yn bennaf. Ond mae'n rhaid i ni gyrraedd ymhellach i gymunedau, ffurfio partneriaethau newydd a gwella ein modelau cyflenwi i ateb y galw a datblygu'r gamp ymhellach.

# Byddwn yn sicrhau'r canlynol ...

## Pobl

Ein bod yn hwyluso cyfleoedd i wella sgiliau busnes gweithredwyr cyfleusterau, gan sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

Ein bod yn paru mentoriaid busnes gwirfoddol gyda'r rhai sy'n rhedeg cyfleusterau.

Ein bod yn lansio ymgyrch recriwtio i sicrhau bod gennym weithlu o weithredwyr cyfleusterau sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Lleoedd

Darparu Canolfan Gymnasteg Genedlaethol i Gymru.

Nodi lleoliadau sydd â galw heb ei ddiwallu a dod o hyd i atebion ar gyfer lleoedd newydd, gan gynnwys gofod a rennir.

Datblygu model busnes ar gyfer campfeydd symudol, gan ganolbwyntio ar gymnasteg cyn oedran ysgol a lefel sylfaen

Trafod cytundebau prydles sy'n gynaliadwy yn ariannol ar gyfer cyfleusterau pwrpasol.

Cynllunio i wneud y defnydd gorau posibl o asedau cyfleusterau, gan weithio gydag asiantaethau statudol ac anstatudol.

Blaenoriaethu cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau cynaliadwy yn amgylcheddol.

## Safonau

Sicrhau bod cynlluniau'n cael eu harwain gan wybodaeth.

Blaenoriaethu hyfywedd ariannol cyfleusterau a mannau newydd, wedi'u huwchraddio, i sicrhau cynaliadwyedd.

Cydweithio'n frwd ag awdurdodau cynllunio i eiriol dros roi pwrpas newydd i unedau diwydiannol, i greu cyfleusterau gymnasteg newydd.

Gwella hygyrchedd, ystyried llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau mynediad i bobl anabl.


Quatro
Mae gymnasteg yng Nghymru wedi cael ei thrawsnewid fel camp, a hynny yn sgil cyflwyno cyfleusterau pwrpasol, dan arweiniad entrepreneuriaid cymdeithasol medrus yn bennaf.
GVA

# NOD 4

## Creu cyfleoedd i Bawb

Mae'r galw am gymnasteg a thrampolinio yng Nghymru yn fwy na’r cyfleoedd sydd ar gael. Mae angen i ni ddatblygu'r gamp er mwyn lleihau rhestrau aros. O ddatblygiad blynyddoedd cynnar i gefnogi’r broses o ddatblygu llythrennedd corfforol, mae gymnasteg yn darparu sylfeini i sicrhau ffordd iach ac actif o fyw.

# Byddwn yn sicrhau'r canlynol ...

## Pobl

Annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan a sicrhau bod ein Cronfa Galedi yn cefnogi'r rhai mewn angen.

Sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein gweithlu a gwneud yn siŵr bod yr hyfforddiant yn hygyrch i bawb.

Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar draws ein rhwydwaith, gan wella ein gweithlu entrepreneuraidd.

Darparu cefnogaeth barhaus a rhaglenni addysg sy'n gosod safonau clir i sicrhau gweithlu cefnogol a medrus ar bob lefel.

## Lleoedd

Blaenoriaethu cefnogaeth i ardaloedd sydd â rhestrau aros hir.

Cynyddu nifer y canolfannau hamdden a'r safleoedd ysgolion sy'n darparu gymnasteg.

Ehangu ein rhwydwaith drwy bartneriaethau, cynnig darpariaeth gymunedol a datblygu rhaglen hamdden.

Cyflwyno cystadlaethau ar raddfa fwy a denu digwyddiadau rhyngwladol

## Safonau

Sicrhau bod yr holl weithgarwch yn ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol, gan gyfrannu at y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Mabwysiadu dull digidol yn gyntaf o gefnogi effeithlonrwydd (o ran cost ac amser).

Hyrwyddo a darparu cyfleoedd cyfathrebu yn y Gymraeg i'r holl randdeiliaid.

Rhannu manteision gymnasteg fel camp sylfaen, ar draws portffolios y llywodraeth..



“

Mae gymnasteg yn darparu sylfeini ar gyfer ffordd iach ac actif o fyw

# NOD 5

## Gweithredu llwybrau clir ar gyfer cynnydd i berfformiad

Byddwn yn meithrin diwylliant lle gall pawb gyflawni eu potensial llawn; a gwneud eu gorau glas.  Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni bob amser yn canolbwyntio ar yr athletwr ac yn cael eu harwain gan hyfforddwyr.

# Byddwn yn sicrhau'r canlynol ...

## Pobl

Parhau i greu diwylliant o wrando'n astud ar lais yr athletwr, gan lunio rhaglenni sy'n canolbwyntio ar athletwyr ac sy'n cael eu harwain gan hyfforddwyr.

Datblygu carfan ehangach o hyfforddwyr a staff cymorth sydd â gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad o safon byd.

Gwella cymorthdaliadau ar gyfer gymnasteg perfformiad fel nad yw rhwystrau ariannol yn atal gymnastwyr rhag cyflawni eu potensial.

Sicrhau cynrychiolaeth o Gymru ar bob lefel ac ym mhob rôl a disgyblaeth ar lwybr Gymnasteg Prydain ar gyfer Prydain Fawr.

Hwyluso'r broses bontio i gymnastwyr sy'n cyrraedd diwedd eu gyrfaoedd naill ai drwy drosglwyddo talent i chwaraeon eraill neu i waith.

Gwneud hyfforddiant yn orfodol i rieni a gwarcheidwaid os yw eu plentyn yn dilyn y llwybr perfformiad.

## Lleoedd

Sicrhau buddsoddiad i ddatblygu Canolfan Gymnasteg Genedlaethol addas i'r diben, gyda chyfleusterau o safon byd ar gyfer gymnastwyr perfformiad.

Datblygu seilwaith o ganolfannau perfformiad rhanbarthol, sy'n gwasanaethu pob disgyblaeth.

## Safonau

Sicrhau cysondeb â llwybrau perfformiad Gymnasteg Prydain ym mhob disgyblaeth..

Sefydlu rhaglen berfformio Para i gynnwys cyfleoedd perfformiad uchel i bara-athletwyr.

Creu mwy o degwch ar draws ein disgyblaethau o ran buddsoddi ac adnoddau.

Rhanbartholi ein rhaglen Perfformiad i feithrin talent ym mhob cwr o Gymru.

Gweithio ar y cyd â'r tîm datblygu i sicrhau proses bontio esmwyth o ddatblygu i berfformiad.



> Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni bob amser yn canolbwyntio ar **athletwyr** ac yn cael eu **harwain gan hyfforddwyr**

Ein 2035

# Gweledigaeth

Mae ein strategaeth yn uchelgeisiol, a byddwn yn herio ein hunain yn barhaus i gyflawni ein nodau. Byddwn yn cyhoeddi ein cynnydd bob blwyddyn i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ac yn parhau'n atebol i randdeiliaid. Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl y bywydau rydym yn cael effaith arnynt.

Byddwn yn herio **ein hunain yn barhaus** i gyflawni ein **nodau**



# Sut bydd llwyddiant yn edrych yn 2035?

## Pobl

Bydd pawb yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel a bydd lleisiau gymnastwyr yn cael eu clywed yn gwbl glir.

Erhaglenni cyn-ysgol helaeth yn cefnogi sgiliau llythrennedd corfforol.

Dim rhestrau aros.

Ein hyfforddwyr yn rhagori ar lwyfan y byd.

Rhaglenni addysg sydd â sicrwydd ansawdd yn ateb y galw o ran y gamp.

## LLeoedd

Bydd gennym Ganolfan Gymnasteg Genedlaethol o'r radd flaenaf.

Bydd pob lleoliad ar draws Cymru yn amgylcheddau agored, gan sicrhau nad oes dim yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig.

Cyfleusterau mwy penodol, lleol a hygyrch ledled Cymru.

Bydd cyfleoedd i bawb gystadlu, ar bob lefel.

Bydd Cymru'n cynnal cystadlaethau rhyngwladol yn rheolaidd.

## Safonau

Byddwn yn cynnal y lefel uchaf o gydymffurfio ym maes Diogelu.

Bydd ein diwylliant a'n hymddygiad yn gadarnhaol ar draws ein camp.

Byddwn yn cael ein cydnabod gan bob corff rheoli chwaraeon fel y gamp sylfaen.

Bydd ein camp yn gadarn yn ariannol.

Byddwn yn croesawu technoleg i wella ein camp ar bob lefel.

Cyfrannu tuag at darged Sero Net Llywodraeth Cymru.

Bydd ein camp yn fwy amrywiol a chynhwysol. Byddwn wedi cynyddu ein helw cymdeithasol

yddwn yn parhau fel y brif gamp yng Nghymru o ran cefnogi entrepreneuriaid benywaidd.

Bydd ein **llwyddiant** yn cael ei fesur gan y bywydau **rydym yn effeithio arnynt.**





Welsh Gymnastics
Gymnasteg Cymru